# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 3

CYFFREDINOL

### 50 Gorchmynion a rheoliadau

(1) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Mesur hwn yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol achosion, ardaloedd, awdurdodau a disgrifiadau o awdurdod;

(b) i wneud darpariaeth yn gyffredinol neu mewn perthynas ag achosion penodol;

(c) i wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, canlyniadol, byrhoedlog, trosiannol neu'r cyfryw ddarpariaeth arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru'n dda ei gwneud.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 8(1), 15(3), (5) neu (7), 19(3)(b) neu 51(4) neu reoliadau o dan adran 29(7) yn ddarostyngedig i ddiddymiad yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Er hynny, ni fydd is-adran (3) yn gymwys os bydd offeryn hefyd yn cynnwys darpariaethau a wnaed o dan y pwerau a grybwyllir yn is-adran (5).

(5) Ni chaniateir i offeryn statudol gael ei wneud sy'n cynnwys (wrth ei hun neu ynghyd â darpariaethau eraill)—

(a) gorchymyn o dan adran 7(1),

(b) gorchymyn o dan adran 16(3),

**F1**(c) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(d) gorchymyn o dan adran 51(4) sy'n cynnwys darpariaeth a grybwyllir o dan is-adran (5)(b)(i) o'r adran honno,

onid oes drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

(6) Yn ddarostyngedig i is-adran (7), ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 31 gael ei wneud onid oes drafft o'r gorchymyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

(7) Mae gorchymyn o dan adran 31 sydd wedi'i wneud yn unswydd i ddiwygio gorchymyn cynharach o dan yr adran honno—

(a) er mwyn estyn y gorchymyn cynharach, neu unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn cynharach, i rychwantu awdurdod penodol neu awdurdodau o ddisgrifiad penodol;

(b) er mwyn i'r gorchymyn cynharach, neu unrhyw ddarpariaeth yn y gorchymyn cynharach, beidio â bod yn gymwys mwyach i awdurdod penodol neu i awdurdodau o ddisgrifiad penodol,

yn ddarostyngedig i ddiddymiad yn unol â phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 50(5)(c) wedi ei diddymu (1.4.2016) gan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2), a. 56(2), **Atod. 4 para. 22**; O.S. 2016/86, ergl. 3

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 50 mewn grym ar 10.6.2009, gweler **a. 53(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 50 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16